Hawdd ei ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

# Ein cynllun ni i helpu mwy o bobl i gymryd rhan yn y celfyddydau yng Nghymru

## Y pethau wnaethon ni yn 2018 a 2019



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2018-2019'.**

**Chwefror 2020**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall. Efallai y bydd arnoch chi angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bod geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd eu deall. Mae'n dweud beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae e mewn ysgrifennu glas cyffredin. Gallwch chi edrych ail beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 15**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** http://www.arts.wales

**E-bost:** information@arts.wales

**Ffôn:** 03301 242733

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**

# Cynnwys

**Tudalen**


**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon....................................................2**

**Am beth mae'r ddogfen hon yn sôn?..........................................4**

**Y gwaith pwysig wnaethon ni o 2018 – 2019.............................5**

**Enghraifft o waith rydyn ni wedi'i gefnogi.................................10**

**Y pethau ddywedon ni ein bod ni am eu gwneud yn well?...12**

**Beth sydd arnon ni angen ei wneud nesaf?..............................14**

**Geiriau anodd...............................................................................15**

# Am beth mae'r ddogfen hon yn sôn?




Fe ysgrifennon ni gynllun yn 2017 ynghylch helpu mwy o bobl i gymryd rhan yn y celfyddydau yng Nghymru.



Mae hwn yn adroddiad am y gwaith wnaethon ni yn 2018 a 2019.



Rydyn ni'n credu bod y celfyddydau ar gyfer pawb.



Rydyn ni'n poeni nad yw rhai grwpiau o bobl yn cael yr un cyfleoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau â phobl eraill.



Er enghraifft, pobl sy'n anabl neu'n bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (**BaME**).



Mae **BaME** yn meddwl person du, person Asiaidd neu **berson o leiafrif ethnig**. Mae **person lleiafrif ethnig** yn rhywun sy'n byw mewn lle ble mae'r rhan fwyaf o'r bobl eraill o dras gwahanol.

# Y gwaith pwysig wnaethon ni yn 2018 a 2019



Fe lansion ni ein gwefan newydd ni yn Ebrill 2019.



Mae’n llawer mwy **hygyrch**.

Mae **hygyrch** yn meddwl bod pawb yn gallu defnyddio a chael gafael ar rywbeth.



Rydyn ni’n cael cyfarfodydd ar draws Cymru ar gyfer pobl yn y celfyddydau. Rydyn ni wedi defnyddio’r cyfarfodydd hyn i siarad am ein cynlluniau ni i helpu mwy o bobl i gymryd rhan.




Rydyn ni’n hel gwybodaeth at ei gilydd ynghylch gweithio gyda chynulleidfaoedd byddar a thrwm eu clyw.




Ac rydyn ni’n hel gwybodaeth at ei gilydd ar gyfer cynulleidfaoedd dall a rhai â **nam ar eu golwg**.

Mae **nam ar y golwg** yn meddwl pobl sy’n cael problemau gweld yn iawn.




Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod staff yng nghyngor y celfyddydau yn deall mwy am **gydraddoldeb**.

Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pawb yn deg.



Mae ein staff hi yn dod o lawer o wahanol gefndiroedd.



Mae un aelod staff yn anabl.



Rydyn ni'n gweithio gyda mudiadau eraill i gynnig **prentisiaethau** ac **interniaethau** i bobl o wahanol gefndiroedd.

Mae **prentisiaethau** ac **interniaethau** yn digwydd pan fydd pobl yn dysgu wrth eu gwaith er mwyn cael profiad. Ond efallai na fyddan nhw'n cael eu talu.



Rydyn ni wedi gofyn i bobl beth maen nhw'n feddwl am ein cynlluniau ni.



Mae llawer o gefnogaeth i'n syniad ni o roi arian i fudiadau a phobl **amrywiaethol**.

> Mae **amrywiaethol** yn meddwl pobl o wahanol ddiwylliannau, gwahanol alluoedd a gwahanol ffyrdd o fyw.



Rydyn ni am ei gwneud hi'n haws i bobl wneud cais am arian.



Rydyn ni'n cefnogi mwy o bobl i gymryd rhan yn y celfyddydau trwy brosiect sy'n cael ei alw'n **Creative Steps**.



Fe wnaethon ni roi arian hefyd i brosiect ar gyfer artistiaid anabl sy'n cael ei alw'n **Unlimited**.

Ac fe wnaethon ni fwy o waith ar gyfer prosiect sy'n cael ei alw'n **Ramps on the Moon**.



Fe wnaethon ni roi hyfforddiant i fudiadau sy’n ymwneud â’r celfyddydau ynghylch amrywioldeb.




Rydyn ni’n dal i ddefnyddio ein cerdyn Hynt ni.



Mae cardiau Hynt yn helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fynd i ddigwyddiadau celfyddydol yn aelodau o Hynt.



Mae pob prosiect sy’n gwneud cais am arian gennym ni angen dangos bod eu lleoliadau nhw yn hygyrch.



Rydyn ni wedi rhoi arian i brosiectau sy’n chwilio am gynulleidfaoedd mwy hygyrch.



Rydyn ni wedi rhoi cefnogaeth i artistiaid sy'n **Sipsiwn**, **Roma** a **Theithwyr**.

Gall pobl o gymunedau **Sipsiwn**, **Roma** a **Theithwyr** ddod o wahanol gefndiroedd – gwledydd eraill neu ddiwylliannau eraill. Mae rhai yn byw ar safleoedd arbennig a rhai yn teithio o le i le.



Mae ein rhaglen sy'n cael ei alw'n **Ddysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau** wedi gweithio gyda'r rhan fwyaf o'r ysgolion anghenion arbennig yng Nghymru.



# Enghraifft o waith rydyn ni wedi'i gefnogi



Fe gefnogon ni Suzi Larke ag **arddangosfa** ffotograffiaeth sy'n cael ei galw'n **Unseen**.

Mae **arddangosfa** yn digwydd pan fyddwch chi'n dangos eich celfyddyd i'r cyhoedd.



Roedd yr arddangosfa hon ynghylch materion iechyd meddwl.



Roedd yn helpu pobl i ddangos eu profiadau nhw ynglŷn â iechyd meddwl pan nad oedden nhw'n gwybod sut i sôn amdanyn nhw mewn geiriau.



# Y pethau ddywedon ni ein bod am eu gwneud yn well



Dywedon ni y byddwn ni'n gweithio gyda mwy o bobl sydd â **nodweddion gwarchodedig**.









Mae **nodweddion gwarchodedig** yn ymwneud â deddf ynghylch trin pobl yn gyfartal ac yn deg. Mae rhai grwpiau o bobl yn cael eu trin yn annheg oherwydd pethau fel:

- Oed
- Anabledd
- BaME
- Y person maen nhw'n ei ffansïo neu'n ei garu
- Disgwyl plentyn
- Bod yn briod

Dydy hyn ddim yn iawn. Mae'n rhaid i'r grwpiau hyn o bobl gael eu trin yn deg ac yn gyfartal.



Rydyn ni'n gweithio gyda mwy o bobl sy'n gweithio ar ran BaME a gwirfoddolwyr BaME.



Ac rydyn ni'n gweithio gyda mwy o bobl sy'n **hoyw**, yn **lesbiaid** neu'n **ddeurywiol**.



Mae pobl sy'n **hoyw** ac yn **lesbiaidd** yn ffansïo neu'n caru pobl o'r un rhyw â nhw. Mae pobl **ddeurywiol** yn ffansïo neu'n caru dynion a menywod.



Ond rydyn ni'n gweithio gyda llai o bobl sy'n anabl.



A dydyn ni ddim wedi gweithio gyda digon o artistiaid sy'n bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BaME) neu'n anabl.

# Beth sydd arnon ni angen ei wneud nesaf?



Byddwn ni’n dal i siarad am bwysigrwydd y gwaith hwn.



Byddwn ni’n gwneud canllaw i bobl sy’n ddall neu sydd â nam ar y golwg.



Byddwn ni’n gweld sut y gallwn ni weithio gyda mwy o bobl o gefndiroedd amrywiaethol.



Byddwn ni’n ei gwneud hi’n fwy hygyrch i wneud cais am arian.



Byddwn ni’n edrych ail beth yw’r ffordd orau o gefnogi pobl a mudiadau sydd â nodweddion gwarchodedig.



Byddwn ni’n siarad â mudiadau eraill ynglŷn â gwneud rheolau ar gyfer trin pobl yn deg a chyfartal.

# Geiriau anodd

### Arddangosfa

Mae arddangosfa yn digwydd pan fyddwch chi'n dangos eich celfyddyd chi i'r cyhoedd.

### Amrywiaethol

Mae amrywiaethol yn meddwl pobl o wahanol ddiwylliannau, gwahanol alluoedd a gwahanol ffyrdd o fyw.

### BaME

Mae BaME yn meddwl person du, person Asiaidd neu berson o leiafrif ethnig. Mae person lleiafrif ethnig yn rhywun sy'n byw mewn lle ble mae'r rhan fwyaf o'r bobl eraill o dras gwahanol.

### Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pawb yn deg.

### Hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol

Mae pobl sy'n hoyw neu'n lesbiaidd yn ffansïo neu'n caru pobl o'r un rhyw â nhw. Mae pobl ddeurywiol yn ffansïo neu'n caru dynion a menywod.

### Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl bod pawb yn gallu defnyddio a chael gafael ar rywbeth.

### Nam ar y golwg

Mae nam ar y golwg yn meddwl pobl sy'n cael problemau gweld yn iawn.

## Nodweddion gwarchodedig

Mae nodweddion gwarchodedig yn ymwneud â deddf ynghylch trin pobl yn gyfartal ac yn deg. Mae rhai grwpiau o bobl yn cael eu trin yn annheg oherwydd pethau fel:

- Oed
- Anabledd
- BaME
- Y person maen nhw'n ei ffansïo neu'n ei garu
- Disgwyl plentyn
- Bod yn briod

Dydy hyn ddim yn iawn. Mae'n rhaid i'r grwpiau hyn o bobl gael eu trin yn deg ac yn gyfartal.

## Prentisiaethau ac interniaethau

Mae prentisiaethau ac interniaethau yn digwydd pan fydd pobl yn dysgu wrth eu gwaith er mwyn cael profiad. Ond efallai na fyddan nhw'n cael eu talu.

## Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Gall pobl o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ddod o wahanol gefndiroedd – gwledydd eraill neu ddiwylliannau eraill. Mae rhai yn byw ar safleoedd arbennig a rhai yn teithio o le i le.